

Asbestos yn y Cartref



Tynnu asbestos, a beth i wneud os ydych chi'n credu y gallai fod asbestos yn eich tŷ.

Ymhle rydych chi'n debygol o ddod o hyd i asbestos?

Ymhlith y lleoliadau mwyaf cyffredin, mae:

- Sment asbestos ar doeon garej neu sied
- Sment asbestos mewn paneli waliau garej neu sied
- Cwteri a phibau draen sment asbestos
- Byrddau insiwleiddio'r bondo, paneli llenwi a waliau rhannu sment asbestos
- Sment asbestos ar ochr paneli bath
- Tanciau dŵr sment asbestos
- Insiwleiddio asbestos systemau gwresogi awyr cynnes

Os ydy'ch chi'n byw mewn tŷ rhent, efallai bydd gan eich landlord wybodaeth berthnasol ar leoliad asbestos o fewn yr adeilad.

Mae'n fwy tebygol y bydd cartrefi a adeiladwyd cyn y 1990au'n cynnwys asbestos na thai mwy cyfoes.

Beth i'w wneud os oes asbestos yn eich cartref

Y rheol aur ydy gadael llonydd i asbestos. Dydych chi e ddim fel arfer yn beryglus os na chaiff ei niweidio na'i aflonyddu.

Peintiwch ddeunyddiau tu mewn â phaent sy'n gwrthsefyll alcali, fel emylsiwn PVA, a pheidwch byth â sandio, drilio na llifio deunyddiau asbestos.

Gofynnwch am gyngor cyn meddwl am dynnu asbestos, a dilynwch y rheolau sylfaenol isod os ydych chi'n mynd ati i'w dynnu.

Peidiwch â cheisio tynnu defnydd lapio asbestos, haenau wedi'u chwistrellu na darnau mawr o fwrdd insiwleiddio ar eich pen eich hun. Rhaid i hyn gael ei wneud gan gontractwr trwyddedig.

Weithiau, bydd angen cymryd sampl, e.e. i adnabod pa fath o asbestos ydy e. Eto, contractwr arbenigol ddylai wneud hyn.

Taflu Gwastraff Asbesto

Gall trigolion gael gwared â sment asbestos yn safleoedd mwynderau dinesig Brynmenyn neu Landudwg. Bydd angen nodyn awdurdodi cyn i chi gael mynediad i'r safle gyda gwastraff asbestos, ac efallai codir tâl. Ffoniwch 01656 643443 am fanylion pellach.

Cyngor ar Asbestos

- Peidiwch â dychryn os ydych chi'n credu bod asbestos yn eich cartref – dyw e ddim fel arfer yn achosi problem os gadewch lonydd iddo.
- Byddwch yn wylidwrus o asbestos a'i drin â pharch.
- Peidiwch â sandio, drilio na llifio deunyddiau asbestos.
- Gofynnwch am gyngor proffesiynol os ydych chi'n credu bod problem asbestos yn eich cartref.